Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

## Briff Ymchwil

Ionawr 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7350**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

## Briff Ymchwil

Ionawr 2020


**Awdur:**
Gareth Thomas

## Cynnwys

**Crynodeb** .......... 1

**Trefniadau presennol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE yng Nghymru** .......... 3

Lefel y cyllid a geir .......... 3

Datganoli rheoli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE .......... 5

Gwerthusiadau o effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol .......... 6

**Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU – yr hyn a wyddom hyd yn hyn** .......... 8

**Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol Cymru ar ôl Brexit** .......... 11

Cyllid a datganoli yn y dyfodol .......... 11

Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit .......... 12

**Pwyllgorau'r Cynulliad a buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit** .......... 14



**Cynigion gan sefydliadau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit** .......... 16

Sefydliadau yng Nghymru .......... 16

Sefydliadau anllywodraethol yng ngweddill y DU .......... 18

**Barn y Llywodraeth a chyrff seneddol gwledydd eraill y DU** .......... 20

San Steffan .......... 20

Lloegr .......... 20

Gogledd Iwerddon .......... 23

Yr Alban .......... 23

# Crynodeb

**Ers 1 Gorffennaf 1999,** mae rheoli Cronfeydd Strwythurol a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig wedi'i ddatganoli i Gymru, a sefydlwyd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Ebrill 2000.

**Ers datganoli, mae Cymru wedi cael lefelau cymharol uchel o gyllid gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd o'i gymharu â chyllid gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr**. Dros gylch ariannu 2014-2020 yr UE, bydd Cymru'n cael bron £2.7 biliwn gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae dadansoddiad gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin **yn tynnu sylw at y ffaith,** yn ystod cylch 2014-20, y bydd Cymru yn cael bron pedair gwaith yn fwy o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd y pen na chyfartaledd y DU, sy'n sylweddol fwy nag unrhyw wlad arall yn y DU.

Ymrwymodd **maniffesto'r Ceidwadwyr** ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019 i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan nodi y byddai pob gwlad yn y DU yn cael o leiaf y lefelau presennol o gyllid. **Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi eto sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn gweithio, ac oherwydd hyn mae nifer o gwestiynau allweddol yn parhau heb eu hateb.** Mae'r rhain yn cynnwys sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i Gymru a rhannau eraill o'r DU, a rôl Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu'r gronfa.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei safbwynt ar y materion hyn**, gan nodi na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai, na cholli dim un pŵer. Mae **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit,** a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yn fanylach. Mae Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad ill dau wedi cyhoeddi adroddiadau ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a'r polisi rhanbarthol ar ôl Brexit. **Daeth y rhain i gasgliadau tebyg i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid, datganoli a ffyrdd o wella sut y bydd cronfeydd yn gweithredu ar ôl Brexit.**

Wrth roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad, **mae sefydliadau wedi nodi na ddylai Cymru fod ar ei cholled** o ganlyniad i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE, ac y dylai **Llywodraeth Cymru reoli a dyrannu'r gronfa yng Nghymru**. Maent hefyd wedi galw am ddyrannu cyllid ar sail angen, yn hytrach na thrwy broses o gynigion cystadleuol.

**Ledled gweddill y DU, mae seneddau a sefydliadau gwahanol wedi nodi eu barn ynghylch sut y dylai cyllid weithredu ar ôl Brexit.**




**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:** Briff Ymchwil

# Trefniadau presennol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE yng Nghymru

## Lefel y cyllid a geir

**Ers datganoli, mae Cymru wedi cael lefelau cymharol uchel o gyllid gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd o'i gymharu â chyllid gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr**. Yn benodol, mae "Gorllewin Cymru a'r Cymoedd" wedi cael y lefel uchaf o gyllid gan Gronfeydd Strwythurol yr UE y mae rhanbarthau yn gymwys i'w cael ym mhob un o'r cylchoedd cyllido ers 2000-06. Dros y cyfnod hwn, cafodd ei ddynodi'n rhanbarth Amcan 1, sef rhanbarth Cydgyfeirio, ac o dan y system bresennol fe'i diffinnir fel rhanbarth llai datblygedig at ddibenion Cronfeydd Strwythurol yr UE, gan fod Cynnyrch Domestig Gros y pen yn llai na 75 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer yr UE.

**Ffigur 1: Map o Orllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru**





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**

Dros gylch ariannu 2014-2020 cyllid yr UE, bydd Cymru'n cael £2.1 biliwn gan **Gronfeydd Strwythurol yr UE**, £552 miliwn gan **Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig**, ac £14 miliwn gan **Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae hyn yn gyfanswm o bron £2.7 biliwn.** Gyda'i gilydd, gelwir y cronfeydd hyn (yn ogystal â'r Gronfa Cydlyniant, nad yw'n rhoi cyllid i'r DU) yn **Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.** Nod Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yw buddsoddi i greu swyddi, economi, ac amgylchedd cynaliadwy ac iach ledled yr UE.

**Mae hyn yn golygu bod Cymru yn cael dros £375 miliwn y flwyddyn gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd** – oddeutu £295 miliwn mewn Cronfeydd Strwythurol, £80 miliwn y flwyddyn gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a £2 filiwn y flwyddyn gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

**Mae hyn gryn dipyn yn fwy y pen na rhannau eraill o'r DU.** Mae dadansoddiad gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin **yn tynnu sylw at y ffaith**, rhwng 2014-20, y bydd Cymru yn cael bron pedair gwaith yn fwy o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd y pen na chyfartaledd y DU, sy'n sylweddol fwy nag unrhyw wlad arall yn y DU.

**Ffigur 2: Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd y pen a geir bob blwyddyn, 2014-20 (DU=100)**





Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**



**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:** Briff Ymchwil

Wrth edrych yn benodol ar **Gronfeydd Strwythurol yr UE**, rhwng 2014-20 bydd Cymru yn cael dros bedair gwaith a hanner gymaint o Gronfeydd Strwythurol y pen na chyfartaledd y DU. Mae hyn fwy na dwbl yr hyn y bydd unrhyw wlad arall yn y DU neu ranbarth yn Lloegr yn ei gael y pen.

**Ffigur 3: Cronfeydd Strwythurol y pen a geir o'u cymharu â chyfartaledd y DU yn 2014-20 (DU=100)**




Ffynhonnell: Prifysgol Sheffield - Sefydliad Ymchwil Economi Wleidyddol Sheffield, **UK regions and European Structural and Investment Funds**

## Datganoli rheoli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE

**Ers 1 Gorffennaf 1999,** mae rheoli Cronfeydd Strwythurol a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig wedi'i ddatganoli i Gymru, a sefydlwyd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Ebrill 2000.

Er mwyn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weinyddu Cronfeydd Strwythurol 2014-20 yng Nghymru, gosododd Llywodraeth y DU ar y pryd ***Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Gweinidogion Cymru) 2014.*** Mae'r **Memorandwm Esboniadol** i'r rhain yn nodi'r rhesymau pam yr oedd Llywodraeth y DU o'r farn y dylai'r cronfeydd hyn gael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru:

> The Government's policy on European Structural Funds spending is that it is appropriate for England, Scotland, Wales and Northern Ireland to take responsibility for their own expenditure...
>
> The instrument is politically important in that it shows that the Government is committed to devolving powers, where appropriate, to the Welsh Ministers and demonstrates its commitment to regional spending being controlled at a regional level.

**Yn yr un modd, mae gweinyddu Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig wedi'i ddatganoli i Gymru ers mis Gorffennaf 1999**, ar ôl trosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth i'r Cynulliad yn **Neddf Llywodraeth Cymru 1998.**

## Gwerthusiadau o effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol

Canfu **Adolygiad 2014 Llywodraeth y DU o Gydbwysedd y Cymwyseddau rhwng y DU a'r UE: Polisi Cydlyniant** ei bod yn anodd asesu a yw'r cronfeydd wedi cyflawni eu hamcanion yn effeithiol, a bod y dystiolaeth yn amhendant. Mae hefyd yn nodi lle y mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi'u nodi, maent yn tueddu i fod yn y rhanbarthau neu aelod-wladwriaethau tlotaf, sef lle y mae'r rhan fwyaf o Gronfeydd Strwythurol wedi'u targedu. Fodd bynnag, mae'r cyfraniad y mae cronfeydd strwythurol wedi'i wneud at gydgyfeirio mewn aelod-wladwriaethau cyfoethocach yn llawer llai eglur, yn rhannol am eu bod yn cynrychioli cyfran fach iawn o'r cyllid sydd ar gael.

Cynhaliodd Old Bell 3 **werthusiad o Gronfeydd Strwythurol 2007-13** ar ran Llywodraeth Cymru. Canfu hyn fod perfformiad yn erbyn y targedau yn gymysg. Roedd y meysydd lle yr ystyriwyd bod perfformiad yn gryf yn cynnwys cynorthwyo busnesau; cynyddu lefelau allforio; creu busnesau newydd; a nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau. Fodd bynnag, ystyriwyd bod perfformiad yn siomedig mewn meysydd eraill, er enghraifft mewn perthynas â rhai agweddau ar greu swyddi; enillion elw i fusnesau; a themâu trawsbynciol o ran cyfle cyfartal a chynaliadwyedd. Barnwyd bod y cronfeydd wedi cael eu rheoli'n dda o safbwynt ariannol, a bod y blaenoriaethau a gynlluniwyd ar gyfer y rhaglen wedi'u diffinio'n dda ac wedi'u cynllunio'n rhesymol. Canfuwyd bod cyfiawnhad dros y blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion a methiannau'r farchnad ar sail tystiolaeth. Roedd yn amlwg eu bod yn gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd.





**Mae sawl astudiaeth academaidd wedi gwerthuso effaith Cronfeydd Strwythurol ar y DU.**

Yn 2018, **canfu Di Cataldo a Monastiriotis** fod lefel Cronfeydd Strwythurol yr UE a ddyrennir i wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr yn cael effaith gadarnhaol ar dwf, a bod hyn hefyd wedi bod yn wir am ranbarthau sydd wedi cael cyllid Amcan 1 neu Gronfa Gydgyfeirio. Daethant i'r casgliad y dylai'r DU weithredu dull tebyg mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol wrth ddatblygu cynlluniau buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit, gyda gwelliannau megis targedu cronfeydd yn fwy tuag at wendidau economaidd rhanbarthau unigol, a fyddai, yn eu barn hwy, yn sicrhau mwy o fuddion na dulliau eraill.

Yn 2017, **nododd Bachtler a Begg bod** perfformiad Cronfeydd Strwythurol wedi cael ei herio pan gânt eu hasesu ar draws yr UE, a bod rhai canfyddiadau yn bwrw amheuaeth ar eu heffaith a'u heffeithlonrwydd, er y bu gwelliannau dros y blynyddoedd diweddar. Maent hefyd yn tynnu sylw at yr anhawster wrth asesu effaith Cronfeydd Strwythurol oherwydd y cyfraniad cymharol fach a wnânt i allbwn economaidd y DU, oherwydd bod Cronfeydd Strwythurol yn cynrychioli 0.1 y cant o gyfanswm Cynnyrch Domestig Gros y DU, er bod lefel y cyllid yn uchel mewn rhai ardaloedd.

Mae Becker, Egger a von Ehrlich **wedi canfod mewn nifer o astudiaethau dros y degawd diwethaf**, yn gyffredinol, ei bod yn anodd dod o hyd i effaith achosol cyllid yr UE ar ranbarthau tlotach, gan y byddai pob un o'r rhain â chyfraddau twf gwahanol yn niffyg cyllid yr UE. Fodd bynnag, maent yn canfod bod cyllid Amcan 1 a chyllid o'r Gronfa Gydgyfeirio, ar gyfartaledd ar lefel y DU a'r UE, wedi helpu rhanbarthau sy'n eu cael i dyfu'n gyflymach. Er gwaethaf y casgliad hwn, maent yn nodi bod pwynt lle nad yw cyllid ychwanegol yn arwain at ragor o dwf. Maent hefyd yn nodi ei bod yn angenrheidiol i ranbarthau gael gweithlu mwy addysgedig, a llywodraethiant da er mwyn sicrhau twf cyflymach.

## Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU – yr hyn a wyddom hyd yn hyn

Ymrwymodd **maniffesto'r Ceidwadwyr ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2017** i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y DU â Chronfa Ffyniant Gyffredin.

**Roedd nifer o ddatblygiadau mewn perthynas â'r gronfa yn ystod cyfnod 2017-19 Senedd y DU, er nad oedd y rhain yn cynnwys manylion ynghylch sut y bydd y gronfa'n gweithredu**. Ym mis Gorffennaf 2018, nododd James Brokenshire AS, Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU ar y pryd, **gynigion** ar gyfer y gronfa:

- Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn **mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymunedau** drwy godi cynhyrchiant, **yn enwedig mewn rhannau o'r DU lle y mae eu heconomïau bellaf ar eu hôl;**
- Bydd ganddi **drefniadau gweinyddol symlach** i geisio targedu cyllid yn effeithiol;
- Bydd yn **gweithredu ar draws y DU.** Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn **parchu'r setliadau datganoli yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon,** a bydd yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y gronfa'n gweithio ar draws y DU.

**Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd hefyd ei fwriad i ymgynghori ar gynllun Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU erbyn diwedd 2018. Fodd bynnag, ni fu dim ymgynghoriad hyd yn hyn ar y gronfa yn y dyfodol.**

**Ym mis Mawrth 2019,** nododd Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ei farn ynghylch sut y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu mewn llythyr at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad. Dywedodd ei fod yn arbennig o awyddus i weld sut y gall sefydliadau ar lefel leol, gan gynnwys awdurdodau lleol, gael y dylanwad mwyaf ar benderfyniadau gwariant o dan y gronfa.

**Ar 27 Mehefin** nododd Kwasi Kwarteng AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU ar y pryd yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **y bydd manylion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu cyflwyno yn 2020.**





Yn ystod yr ornest i fod yn arweinydd y Ceidwadwyr, ar 6 Gorffennaf, mynegodd Boris Johnson AS, sydd bellach yn Brif Weinidog y DU, **ei farn** ynghylch **sut y dylai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU weithredu yng Nghymru**:

> There will be the full allocation of funds for Wales. I think there may be some question about how exactly that money is dispensed, or by whom.
>
> I would want to make sure that there was a strong Conservative influence on the expenditure… to ensure that it delivered taxpayer value.

Ar 3 Awst, **dywedodd** Alister Jack AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban Llywodraeth y DU, y bydd Gweinidogion y DU am gytuno ar gynigion gwariant â Llywodraeth yr Alban o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Tynnodd sylw at Fargeinion Dinesig a Thwf fel enghraifft i'w dilyn, a dywedodd y gallai cyllid yn y dyfodol fod yn seiliedig ar nodau penodol a rennir gan y ddwy lywodraeth, ac y byddai Llywodraeth y DU am wneud mwy o fuddsoddiad uniongyrchol yn yr Alban.

**Ar 5 Medi,** nododd Jake Berry AS, Gweinidog Pwerdy Gogledd Lloegr a Thwf Lleol Llywodraeth y DU, safbwynt Llywodraeth y DU wrth ymateb i gwestiynau ynghylch cyllido a datganoli'r gronfa:

> The first was about whether the UK shared prosperity fund will respect the devolution settlement, and the answer is absolutely yes. We are clear about that, and we want to work with the devolved Administrations and metro mayors as partners. We do not want to set the UKSPF up against the devolution settlement, which we will celebrate in the country.
>
> The second question was about when the quantum will be clear, and it will not become clear until we have completed the comprehensive spending review.

Nododd **maniffesto'r Ceidwadwyr** ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, y canlynol:

> The UK Shared Prosperity Fund will be used to bind together the whole of the United Kingdom, tackling inequality and deprivation in each of our four nations. It will replace the overly bureaucratic EU Structural Funds – and not only be better targeted at the UK's specific needs, but at a minimum match the size of those funds in each nation.

Ar 12 Ionawr 2020, dywedodd Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, **wrth BBC Cymru** y byddai'r manylion am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu nodi o fewn wythnosau, yn hytrach na misoedd. Dywedodd hefyd nad oedd yn rhagweld sefyllfa lle y bydd Llywodraeth y DU gwthio Llywodraeth Cymru o'r ffordd er mwyn ennill pwyntiau gwleidyddol rhwydd mewn perthynas â'r gronfa.

Yn dilyn hynny, ar 15 Ionawr 2020, wrth ateb cwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin, **nododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y canlynol:**

> …for the first time in 45 years, a substantial sum of money is going to be distributed in Wales by Welsh politicians who are directly accountable to Welsh voters. That has not been the case for some time. The hon. Gentleman is quite right that the collaborative approach I take with the Welsh Government over the distribution of the fund should ensure that it goes to the places where it is most needed, and is not—as some might argue has been the case in the past—blown on vanity projects…my discussions with Jeremy Miles so far have been very clear about taking a collaborative approach so that the UK and Welsh Governments, working together, ensure that this money gets to the right place in a timely fashion.

**Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn gweithio.** O ganlyniad i hyn, mae nifer o gwestiynau allweddol yn parhau heb eu hateb.

- Sut y bydd yn gweithio'n ymarferol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir ledled Cymru a'r DU.
- Sut y caiff y cyllid ei ddyrannu ar draws gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, er bod maniffesto'r Ceidwadwyr yn nodi y bydd pob un o wledydd y DU yn cael o leiaf yr un swm o arian ag y maent yn ei gael ar hyn o bryd gan gyllid yr UE.
- Lefel y cyfrifoldeb a'r rheolaeth fydd gan Lywodraeth Cymru dros y gronfa yng Nghymru.
- A fydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i ardaloedd neu wledydd ymlaen llaw, neu a fydd proses o gynigion cystadleuol rhwng ardaloedd yn cael ei defnyddio.
- Y cyfnod amser ar gyfer dyrannu'r cyllid.
- Rôl cyrff lleol a rhanbarthol o ran y gronfa.
- Sut y gellid symleiddio trefniadau gweinyddol o gronfeydd presennol yr UE.





# Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol Cymru ar ôl Brexit

## Cyllid a datganoli yn y dyfodol

Mae Mark Drakeford AC, y Prif Weinidog, **wedi nodi** barn Llywodraeth Cymru o ran faint o gyllid y dylai Cymru ei gael drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a faint o reolaeth y dylai ei chael dros y ffordd y caiff y cyllid ei wario yng Nghymru. **Gellir crynhoi hyn fel na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai, na cholli dim un pŵer.**

**Mae Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yn fanylach.

Dywed Llywodraeth Cymru, er gwaethaf y ffaith bod Cronfeydd Strwythurol yr UE yn helpu i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, fod gwendidau parhaus o hyd mewn rhannau o economi Cymru. **Mae'n dadlau bod cronfeydd yr UE wedi'u targedu i helpu Cymru i wella ar ôl degawdau o ddirywiad diwydiannol, ac y dylai'r cyllid barhau i ddod i Gymru fel rhan o fuddsoddiad wedi'i ail gydbwyso ar draws y DU.**

Mae Llywodraeth Cymru **wedi galw am** **addasu** ei **grant bloc yn gynyddol yn unol â'r swm llawn o gyllid yr UE a gaiff Cymru** o'r eiliad y bydd yn ymadael â'r UE, ac na fydd Llywodraeth y DU yn brigdorri nac yn atodi amodau i'r defnydd o'r cyllid hwn.

**Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai arwain y gwaith o gyflawni'r buddsoddiad hwn am bedwar rheswm**, gan nodi "nad oes gan unrhyw gorff arall fanteision cyfatebol sydd mor hanfodol i ddarparu polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru".

- Mae wedi dyrannu Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac yn ystyried ei bod wedi datblygu arbenigedd mewn cynllunio a darparu gwasanaethau economaidd rhanbarthol effeithiol dros y cyfnod hwn.
- Mae ganddi'r presenoldeb ym mhob rhan o Gymru i ddarparu rhaglen, gyda digon o staff ledled Cymru i roi polisi economaidd rhanbarthol ar waith.
- Mae ganddi bartneriaethau datblygedig gyda'r trydydd sector, llywodraeth leol a'r sector preifat, a phrofiad o gydweithio wrth ddarparu cronfeydd yr UE.

- O dan y setliad datganoli mae'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yn ogystal â meysydd sy'n bwysig i gyflawni polisi economaidd rhanbarthol yn llwyddiannus megis sgiliau, trafnidiaeth a seilwaith.

Oherwydd hyn, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn fodlon gweithio gyda Llywodraeth y DU ar agweddau ar gyflawni economaidd, ond y byddai'n:

> gwrthod yn llwyr unrhyw awgrym o ganoli polisi datblygu economaidd rhanbarthol y DU, gan gynnwys creu 'Cronfa Ffyniant y DU' dan reolaeth Whitehall.

## Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit

Mae **cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol** yn cynnwys:

- Cefnogi cynwysoldeb a thwf mewn pedwar maes blaenoriaeth, sef cynhyrchiant busnes; cymunedau mwy iach a chynaliadwy; lleihau anghydraddoldebau economaidd; yr economi ddi-garbon;
- creu dull nodedig, sy'n seiliedig ar reolau, i ddiwallu anghenion Cymru, sy'n adlewyrchu polisi a deddfwriaeth Cymru;
- sicrhau bod cyllid yn parhau i gael ei wario ar y meysydd sydd fwyaf mewn angen, er y bydd rhywfaint o gynnydd o ran y disgresiwn ar gyfer buddsoddi mewn ardaloedd;
- gosod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd ei chynlluniau;
- blaenoriaethu materion trawsbynciol fel cydraddoldeb a chynaliadwyedd,
- datganoli mwy o bŵer y tu hwnt i Fae Caerdydd, fel bod gan ardaloedd lleol a rhanbarthol fwy o gyfrifoldeb dros gynllunio a phenderfyniadau, gyda chefnogaeth i adeiladu capasiti.

**Er bod rhai agweddau ar gyllid yr UE yr hoffai iddynt gael eu hefelychu yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae o'r farn bod agweddau yr hoffai eu newid hefyd.**

Yn ei rôl flaenorol fel Ysgrifennydd dros Gyllid y Cabinet, **dywedodd** y Prif Weinidog, o dan drefniadau cyllido presennol yr UE, fod Cymru'n cael cyllid yn unol ag angen a bennir gan reolau gwrthrychol cyhoeddedig, ac y dylai hyn barhau.

Mae Llywodraeth Cymru **hefyd wedi dweud** yr hoffai i gyllido aml-flwydd barhau yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan fod hyn yn rhoi sicrwydd ac yn annog buddsoddiadau mwy cynhyrchiol. Hoffai hefyd gynnal trefniadau gweithio mewn partneriaeth, a chryfhau'r rhain drwy gyd-gynhyrchu trefniadau ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru gyda sefydliadau megis partneriaethau rhanbarthol ac isranbarthol.



**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:** Briff Ymchwil

**Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru am efelychu pob agwedd ar raglenni presennol yr UE ar ôl Brexit, ac mae'n credu bod cyfleoedd i wneud llawer o bethau'n wahanol gyda'r trefniadau cyllido newydd, sef:**

- integreiddio cyllid â pholisi a buddsoddiadau ehangach Llywodraeth Cymru;
- integreiddio cronfeydd a chael gwared ar gyfyngiadau daearyddol, gan arwain at beidio â gwahanu buddsoddiadau mewn pobl, busnesau ac ardaloedd gwledig mewn modd sy'n artiffisial neu'n cyfyngu'n ddaearyddol;
- symleiddio'r broses weinyddu, **er enghraifft drwy** ddefnyddio dull hyblyg sy'n lleihau lefel y wybodaeth y mae angen i sefydliadau partner dibynadwy ei rhoi, a mabwysiadu dull safonol megis dull rheoli grantiau cyffredin
- newid y dull o werthuso a monitro i ganolbwyntio ar ganlyniadau ac amcanion ehangach, yn ogystal â rhai economaidd, ac i annog arloesi.

Ar 14 Ionawr 2020, **nododd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** ddatblygiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gronfa yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn lansio dogfen ymgynghori ynghylch y gronfa ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet a thrafodaethau gan grŵp llywio buddsoddi rhanbarthol Cymru.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit hefyd fod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn gwneud gwaith a fydd yn llywio'r dull terfynol. Disgwylir yr adroddiad erbyn diwedd 2020, a bydd yn cynnwys gwaith ar arfer gorau rhyngwladol; meysydd i'w gwella o ran cynigion Llywodraeth Cymru; a datblygu capasiti ar bob lefel o lywodraethau datganoledig yng Nghymru.

## Pwyllgorau'r Cynulliad a buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Mae Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad ill dau wedi gwneud gwaith ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a'r polisi rhanbarthol ar ôl Brexit.

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad ar **ddyfodol polisi rhanbarthol.** Gwnaeth y Pwyllgor 17 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Roedd y Pwyllgor, er ei fod yn fodlon ar un addasiad i'r Grant Bloc fel mesur tymor byr, **yn pryderu bod y dull hwn yn peri risgiau yn y tymor hwy ac y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar rinweddau fformiwla gwrthrychol sy'n seiliedig ar anghenion.**
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil arbenigol ar effeithiolrwydd ei pholisïau presennol a chyflwyno cynigion ar gyfer polisïau yn y dyfodol yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol. Yn dilyn hynny, mae Llywodraeth Cymru **wedi cyhoeddi** y bydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn arwain prosiect i gefnogi datblygiad polisi datblygu economaidd rhanbarthol newydd yng Nghymru.
- **Dylai polisi yn y dyfodol newid mewn sawl ffordd**, gan gynnwys sut y caiff effaith ei mesur, mwy o symleiddio a hyblygrwydd, a dylai fod yn fwy ymatebol i anghenion lleol.

Ym mis Medi 2018, gwnaeth **adroddiad** y Pwyllgor Cyllid ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE nifer o argymhellion mewn perthynas â buddsoddiad rhanbarthol drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae rhai o'r argymhellion allweddol a wnaed a'r casgliadau y daeth y Pwyllgor iddynt yn cynnwys y canlynol.

- **Bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau o leiaf yr un swm o arian i Gymru yn y lle cyntaf drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU â'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol, ynghyd â chwyddiant.** Dylid ychwanegu hyn at Grant Bloc Llywodraeth Cymru.





- Bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i **sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru.** Nid oedd yr un unigolyn na sefydliad a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor, neu a roddodd dystiolaeth, yn galw ar Lywodraeth y DU i weinyddu'r gronfa yng Nghymru.
- **Bod cyfle i wneud newidiadau a gwelliannau i'r trefniadau presennol**, megis lleihau biwrocratiaeth wrth gael cyllid, a chymryd mwy o ran yn lleol ac yn rhanbarthol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.
- Fodd bynnag, mae rhai agweddau y dylid eu cadw, megis cyllid aml-flwydd, trechu tlodi, a phrif ffrydio cydraddoldeb.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r 11 o argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, gan nodi bod adroddiad y Pwyllgor yn cefnogi safbwynt y llywodraeth.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn **ymgymryd â gwaith ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU,** ac mae wedi **cyhoeddi'r ymatebion** a gafodd gan sefydliadau llywodraethol mewn mannau eraill yn y DU.

# Cynigion gan sefydliadau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit

## Sefydliadau yng Nghymru

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Sefydliad Bevan **Ar ôl Brexit: Polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru.** Galwodd hyn ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r un swm o adnoddau ar gyfer Cymru ag y byddai wedi'i gael gan Gronfeydd Strwythurol pe bai'r DU wedi aros yn yr UE, ac i gyfran Cymru o'r gronfa gael ei datganoli i Gymru gan fod polisi datblygiad economaidd yn fater datganoledig. Galwodd hefyd ar Lywodraeth Cymru i bennu'r cyfeiriad ar gyfer polisi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol, ond i ddatganoli a chyllid gael ei ddatganoli i lawr naill ai i lefelau lleol neu ranbarthol lle y bo hyn yn briodol.

Yn **adroddiad ar ddisodli cronfeydd yr UE** y Pwyllgor Cyllid, **mynegodd sefydliadau Cymru gefnogaeth i'r safbwynt na ddylai Cymru fod ar ei cholled o ganlyniad i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE**. Roedd y sefydliadau a fynegodd y safbwynt hwn yn cynnwys academyddion, cyrff trydydd sector, llywodraeth leol, a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau. Mynegodd y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ddwy brif ddadl ynghylch pam y dylai Cymru barhau i gael y lefelau buddsoddi presennol drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

- pwysigrwydd Cronfeydd Strwythurol o ran darparu buddsoddiad ychwanegol hanfodol i Gymru na allai fod wedi ei gyflawni gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig;
- pwysigrwydd cyllid i Gymru fel ffordd o fynd ati i gydbwyso economi'r DU yn well.

Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru **wrth y Pwyllgor** fod ei ymchwil yn dangos bod ychydig llai na chwarter o fusnesau bach a chanolig Cymru wedi elwa o Gronfeydd Strwythurol. Nododd y canlynol hefyd:

> It is strongly our view that maintaining this volume of funding is essential, as it underpins so much of the activity that Welsh Government (and other agencies) undertake to support SMEs in Wales, from business support, to apprenticeships, access to finance and wider economic development and regeneration schemes.

Tynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent **sylw** at bwysigrwydd lefelu am i fyny a sicrhau nad oes yr un ardal yn cael ei gadael ar ôl. Fel ardal sydd â lefelau heriol o dlodi, anfantais, a rhai bylchau sgiliau, mae'n galw am ddarparu cyllid disodli ar sail debyg i'r trefniadau presennol, gyda rhagor o adnoddau'n canolbwyntio ar yr ardaloedd dan yr anfantais fwyaf.

**Yn yr un modd, roedd cefnogaeth o blaid Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru**. Ni alwodd yr un unigolyn na sefydliad a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor i Lywodraeth y DU weinyddu'r gronfa yng Nghymru. Roedd y dadleuon a wnaed gan sefydliadau mewn perthynas â datganoli yn debyg i'r rhai a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Mynegodd nifer o sefydliadau bryder hefyd ynghylch y posibilrwydd y byddai Cymru dan anfantais os cyflwynir system sy'n seiliedig ar her ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.** Mae Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru yn **amlinellu ei phryderon** o ran gallu cefn gwlad Cymru i gystadlu yn y sefyllfa hon, gan nodi y gallai arwain at ddirywiad mwy fyth o weithgarwch economaidd gwledig yng Nghymru.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, ill dwy wedi tynnu sylw at y posibilrwydd y bydd Cymru ar ei cholled drwy broses o gynigion cystadleuol ganolog. **Dywedodd** Victoria Winckler os yw blaenoriaethau economaidd sefydliadau Cymru yn wahanol i'r rhai mewn mannau eraill yn y DU, y gallent fod dan anfantais drwy broses o gynigion cystadleuol sy'n golygu bod Cymru'n chwarae mewn gêm lle nad yw'r rheolau'n addas.

Yn **ei hymateb i'r ymgynghoriad** i lywio gwaith Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin ar Ariannu Ôl-Brexit ar gyfer Cenhedloedd, Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y canlynol:

> In our view, competitive bidding between areas would not be compatible with the aim of the Fund to rebalance the UK economy - as the institutional capacity and economic opportunity of bidding areas will inevitably have a direct bearing on the success of bids on a competitive basis.

Ym mis Tachwedd 2019, ysgrifennodd cynrychiolwyr o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru; y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru; Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru; Colegau Cymru; Prifysgolion Cymru; yr Undeb Prifysgolion a Cholegau; Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru **at holl ddarpar ymgeiswyr seneddol Cymru** cyn Etholiad Cyffredinol 2019. Gwnaethant alw am y camau a ganlyn mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

> Galwn ar bob plaid wleidyddol i sicrhau bod arian yn lle'r cronfeydd strwythurol ar gael yn llawn. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi addo creu Cronfa Ffyniant Gyffredin i gymryd lle'r cronfeydd hyn. Rhaid i unrhyw Gronfa Ffyniant Gyffredin fod wedi ei chynllunio ar batrwm datganoledig a gweithredu ar sail model sy'n seiliedig ar anghenion.

## Sefydliadau anllywodraethol yng ngweddill y DU

**Mae nifer o sefydliadau y tu allan i Gymru sydd wedi cyhoeddi adroddiadau ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi dod i'r casgliad y dylid ei datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**, gan y byddai hyn yn parhau â dull y gweinyddiaethau datganoledig sy'n rheoli Cronfeydd Strwythurol. Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus **yn nodi'r canlynol:**

> The devolved administrations of Northern Ireland, Scotland and Wales should have the freedom to decide what to spend the UK SPF funds on as their constitutional right determines.

Mae sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r dull hwn yn cynnwys y **Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad Joseph Rowntree, Centre for Cities a Communities in Charge.**

**Mynegwyd nifer o ddadleuon o ran a ddylid mabwysiadu dull wedi'i dargedu, sy'n seiliedig ar anghenion, i ddyrannu cyllid neu a ddylid defnyddio cynigion cystadleuol.**

Mae'r dadleuon gan sefydliadau ac academyddion sydd o blaid parhau â dull wedi'i dargedu, sy'n seiliedig ar anghenion, ac sy'n dyrannu cyllid ymlaen llaw i ardaloedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus **yn nodi** bod anghydraddoldeb rhanbarthol yn her barhaus i'r DU, ac y bydd angen i ddull wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar anghenion barhau i fuddsoddi mewn rhanbarthau a chenhedloedd er mwyn osgoi gwaethygu.
- Mae'r Athro David Bell **yn awgrymu** y byddai parhau i ddefnyddio Cynnyrch Domestig Gros y pen fel dull o gyfrifo dyraniadau cyllid yn cynorthwyo cydlyniant cymdeithasol gan ei fod yn cyfeirio cefnogaeth at yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

Mae sefydliadau eraill sy'n cefnogi parhau â dull wedi'i dargedu i ddyrannu cyllid fel **Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol, Sefydliad Joseph Rowntree, y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus a Centre for Cities** wedi awgrymu y dylid seilio angen ar ddangosyddion eraill fel cyflogau, cynhyrchiant, cyflogaeth a lefelau sgiliau er mwyn adlewyrchu anghenion ardaloedd yn well.



**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:** Briff Ymchwil

Mae'r Arglwydd Heseltine, un o gefnogwyr brwd cynigion cystadleuol yn y DU ddechrau'r 1990au, **yn dadlau** bod cynigion cystadleuol drwy raglenni fel Her y Ddinas, a gyflwynwyd ganddo, yn dod ag ysbryd entrepreneuraidd i ardaloedd lleol, ac yn annog gweledigaeth fwy uchelgeisiol ac ehangach wrth ddatblygu cynigion. Mae hefyd yn credu bod ansawdd y cynigion wedi gwella o un cylch i'r llall, wrth i gynigwyr aflwyddiannus ddysgu o'u camgymeriadau yn y gorffennol ac arfer gorau yn dilyn cynigion llwyddiannus.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid **yn nodi** gallai cyflwyno cynigion cystadleuol i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU arwain at gynigion o ansawdd gwell sy'n sicrhau gwerth gwell am arian, ac y byddai'n darparu'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r llywodraeth sy'n gweithredu'r gronfa, ond y gall arwain at lai o gyllid yn cyrraedd yr ardaloedd dan yr anfantais fwyaf.

Fodd bynnag, mae Cynghrair y Cymunedau Diwydiannol **wedi dweud** byddai defnyddio cynigion cystadleuol ar gyfer y gronfa yn rhoi gormod o ddisgresiwn yn nwylo Gweinidogion a swyddogion, yn hytrach na defnyddio meini prawf a data tryloyw. Mae hefyd yn nodi y gall prosesau cynigion wastraffu amser ac adnoddau'r rhai sy'n gwneud cynigion aflwyddiannus. Mae'r Ganolfan Astudiaethau Datblygu Trefol a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Newcastle **yn dadlau** y gall cystadleuaeth rhwng rhanbarthau am gyllid waethygu gwahaniaethau rhanbarthol drwy wobrwyo ardaloedd sydd â'r llywodraethiant a'r arbenigedd cryfaf i lywio ceisiadau am gyllid.

Mynegodd mwyafrif y sefydliadau hyn **eu cefnogaeth hefyd i gyllid aml-flwydd.** Er enghraifft, dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree y canlynol:

> As important as the amount of funding is the stability of the funding. EU Structural Funds are currently allocated on a seven-year investment cycle, enabling strategic planning, longer-term interventions and effective policy co-ordination at the local level. Longer-term funding cycles should be replicated in the design of the replacement fund.

# Barn y Llywodraeth a chyrff seneddol gwledydd eraill y DU

## San Steffan

Cyhoeddodd Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin ar Ariannu Ôl-Brexit ar gyfer Cenhedloedd, Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol ei **adroddiad cychwynnol** ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ym mis Tachwedd 2018. Mae ei brif gasgliadau yn cynnwys:

- I ddechrau, dylai Llywodraeth y DU gyflwyno symud cyfran bresennol pedair cenedl y DU o gyllid yr UE ymlaen i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU;
- O fewn fframwaith y canllawiau y cytunir arnynt, dylai dyrannu'r cyllid i ardaloedd lleol yn y gwledydd datganoledig fod yn fater datganoledig;
- Dylai'r gronfa barchu'r setliad datganoli, ac felly dylid cadw unrhyw ganllawiau ar lefel eang strategol a chytuno arnynt ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig;
- Dylai Llywodraeth y DU drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y gwaith cynllunio a darparu manwl o'r darnau perthnasol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i'r gweinyddiaethau datganoledig a'u partneriaid;
- Os oes unrhyw elfen o gynnig cystadleuol wedi'i ymgorffori yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DU, dylai fod yn ymylol i'r prif ddyraniad ar sail fformiwla.
- Dylai'r gronfa weithredu drwy ddyraniadau ariannol aml-flwydd

Daeth adroddiad Pwyllgor Dethol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin ar **Brexit a llywodraeth leol** i'r casgliad a ganlyn:

> Funding levels for the new Fund, to be announced at the time of the Autumn 2019 Spending Review, must match or exceed the equivalent levels of EU funding which is currently provided to local government. This cannot be a one size fits all approach and must be allocated on the basis of local need, including taking account of what individual areas currently receive from EU structural funds as well as what they would have been entitled to in the next EU funding period if the UK had remained a member.

## Lloegr

Mae nifer o awdurdodau lleol Lloegr, Partneriaethau Menter Lleol, Meiri Metro a chyrff llywodraethol eraill wedi ymateb i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Grwp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin ar Ariannu Ôl-Brexit ar gyfer Cenhedloedd,





Rhanbarthau ac Ardaloedd Lleol, Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaethol y Cynulliad, a Phwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin.

**Roedd cyrff llywodraethol Lloegr bron yn unfrydol o blaid defnyddio dull cyllido aml-flwydd**, gan gefnogi dull o warantu cyllid am o leiaf 5 i 7 mlynedd. Mae enghreifftiau o'r rhesymau dros gefnogi hyn yn cynnwys darparu sefydlogrwydd tymor hwy mewn perthynas â dyraniadau, cynorthwyo wrth gynllunio prosiectau, a'r ffaith y bydd angen cyllid ar lawer o brosiectau dros nifer o flynyddoedd.

**Roedd mwyafrif clir o'r sefydliadau yn Lloegr a ymatebodd i'r ymgynghoriadau hyn yn cefnogi dull wedi'i dargedu, seiliedig ar anghenion, o ddyrannu cyllid**, er enghraifft, roedd 23 o'r ymatebion i ymgynghoriad Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin yn cefnogi'r dull hwn, ac roedd y tri ymateb arall yn rhannol o blaid dull sy'n seiliedig ar anghenion. **Galwodd ymateb ar y cyd Awdurdod Cyfun Dinas Ranbarth a Phartneriaeth Menter Leol Lerpwl** i ymgynghoriad Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin am system ddyrannu sy'n seiliedig ar anghenion a fyddai'n gwneud y canlynol:

> ...allow for the rebalancing of the economy by targeting the allocations at areas of greatest need while at the same time allow for targeted investments in line with agreed local industrial strategies.

O ganlyniad i hyn, **roedd llawer o'r sefydliadau hyn yn teimlo na ddylid cael rôl fawr, os o gwbl, i brosesau cynigion cystadleuol wrth ddyrannu cyllid.** Nododd nifer o ymatebwyr eu pryderon o ran dull o'r fath. Er enghraifft, **dywedodd** Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster y canlynol wrth Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin:

> Competitive bidding processes traditionally favour areas of high growth. It is recognised that the Government is seeking a greater rate of return on their investments; however it should not be under a competitive bidding process but working with areas to generate greater returns from within local industrial strategies with designated financial allocations.

Hefyd, **nododd** Cyngor Bwrdeistref Warrington ei bryderon ynghylch sut roedd y broses o gynigion cystadleuol yn y Gronfa Twf Rhanbarthol yn gweithredu, gan nodi y dylai'r rhesymeg y tu ôl i'r achos busnes bennu sut y mae cyllid yn cael ei ddyrannu ac nad oedd hyn yn digwydd yn ymarferol.

**Roedd lleiafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgyngoriadau yn gweld rhyw rôl i gynigion cystadleuol mewn rhannau o'r gronfa, er mai dim ond un oedd o'r farn y dylai'r dull hwn gael mwy na rôl fach wrth ddyrannu cyllid cyffredinol**. Mae'r **enghreifftiau a roddwyd** yn cynnwys defnyddio prosesau cynnig yn ymwneud â chyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi, neu ddefnyddio cynigion cystadleuol o bosibl ar

gyfer cronfa atodol fach a fyddai'n cael ei dyrannu yn ychwanegol y rhan fwyaf o'r cyllid a ddyrennir drwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion.

**Mae llai o gytundeb o ran pa ddull y dylid ei ddefnyddio ar gyfer dyrannu cyllid i genhedloedd, rhanbarthau neu ardaloedd lleol.** Er bod llai o sefydliadau Lloegr yn unig wedi ymateb i'r cwestiynau ar y pwnc hwn yn yr ymgyngoriadau amrywiol, mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau. **Roedd rhai sefydliadau o'r farn na ddylai'r un ardal gael llai o gyllid o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE**. Er enghraifft, **nododd** Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf y dylid cael y canlynol:

> A funding level that is at least the level of existing EU Structural Funds available to each area, along with the matched funding sources used in the past, and other Regional Growth Fund and Local Growth Fund-type investment.

Fodd bynnag, **roedd sefydliadau eraill o'r farn y dylid newid methodoleg y trefniadau sydd ar waith ar gyfer dyrannu cyllid gan Gronfeydd Strwythurol yr UE,** er mwyn sicrhau bod yr angen presennol yn cael ei ddiwallu wrth ddyrannu cyllid. Er enghraifft, **dywedodd** Cyngor Dinas Sunderland y canlynol:

> The nations will have achieved different rates of progress since the current programme began so a needs-based formula based on latest reliable data would be preferable and also future-proof, if refreshed before each new programme round begins.

**Roedd pob un o'r 16 sefydliad yn Lloegr a ymatebodd i gwestiwn Grŵp Hollbleidiol Seneddol Tŷ'r Cyffredin ynghylch a ddylai dyraniadau mewn gweinyddiaethau datganoledig fod yn fater cwbl ddatganoledig yn cefnogi'r farn y dylai fod.**Er nad oedd llawer o sefydliadau wedi ymhelaethu ar eu rhesymau, **dywedodd** Awdurdod Cyfun Gorllewin Swydd Efrog y canlynol:

> Current ESIF allocations in Scotland, Wales and Northern Ireland are the responsibility of the devolved administrations. There should be no rolling back of devolved control for the UKSPF. Indeed, the principle of devolution should be extended, and applied as far as possible in the roll-out of UKSPF to English regions.

Yn yr un modd, **dywedodd** Cyngor Dinas Portsmouth y dylai dyraniadau mewn gwledydd datganoledig fod yn fater cwbl ddatganoledig oherwydd, fel arall, nad datganoli ydyw. Gwnaeth Cyngor Dinas Sunderland sylw y dylai dyraniadau yn y gwledydd datganoledig fod yn faes cwbl ddatganoledig yn unol ag ysbryd datganoli.

Tynnodd nifer fach o awdurdodau lleol yn Lloegr sylw at ardaloedd lle y dylai Cymorth Gwladwriaethol a sicrhau tegwch i bob ardal weithredu dull cyffredin ledled y DU. **Dywedodd** Cyngor Dinas Preston y gallai sicrhau tegwch i bob





ardal fod yn fframwaith cyfreithiol a pholisi cyson ledled y DU, ond gyda lle i weinyddiaethau datganoledig flaenoriaethu elfennau gwahanol o'r fframwaith yn unol ag angen lleol.

## Gogledd Iwerddon

**Mewn ymateb** i ymgynghoriad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, nododd Ysgrifennydd Parhaol Adran Economi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y bu diffyg ymgysylltiad ystyrlon gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r gronfa. Dywedodd hefyd mai **prif bryder yr adran yw bod ymgynghoriadau Llywodraeth y DU ynghylch y gronfa yng Ngogledd Iwerddon yn ymdrin â meysydd datganoledig**, gan nodi'r canlynol:

> UK Government officials indicated that the SPF is seen as a mechanism to address the needs of the UK Industrial Strategy. Industrial policy is, however, a devolved matter and the planned approach cannot be taken here. We currently have a draft Northern Ireland Industrial Strategy and our view remains that it is inappropriate for Whitehall departments to focus on activities that support the UK Industrial Strategy and not on local needs here.

Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon **ei barn hefyd** i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Mae'r prif bwyntiau a gyflwynwyd yn cynnwys:

- Ni ddylai dim un o wledydd y DU fod yn waeth eu byd, naill ai'n gyfrannol neu o ran rhifedd, o ganlyniad i'r gronfa – dylai'r dyraniad naill ai fod yn gyfatebol neu'n uwch na'r lefelau cyllido presennol.
- Dylai rheoli'r gronfa gael ei ddatganoli i Ogledd Iwerddon a'r gwledydd datganoledig eraill, er mwyn bodloni ymrwymiad Prif Weinidog y DU ar y pryd yn 2017 na fyddai Brexit yn gwanhau trefniadau datganoli.
- Wrth ddyrannu cyllid, dylid rhoi pwysiad ychwanegol i'r rhanbarthau y mae Brexit yn cael yr effaith negyddol fwyaf arnynt.
- Dylai cydweithredu trawsffiniol rhwng Gogledd Iwerddon/Iwerddon a rhwng Iwerddon/Cymru allu parhau drwy'r gronfa.
- Bu diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU, nad yw wedi rhoi digon o fanylion am gynnwys yr ymgynghoriad sydd ar ddod, nac amserlen ar ei gyfer.

## Yr Alban

Mae **Llywodraeth yr Alban wedi nodi ei safbwynt ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** **mewn llythyr at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth**

**Ychwanegol.** Dywedodd Ivan McKee ASA, y Gweinidog Masnach, Buddsoddi ac Arloesi, y canlynol:

- Scotland should not lose out financially compared to the current level of funding it receives from the EU, which is worth approximately £700 million through ESF and ERDF alone.
- The devolution settlement must be respected and there must be no attempt by the UK Government to take back powers that the Scottish Government has "rightfully executed to date".
- The Scottish Government's role in the development of Shared Prosperity Fund should be as partners, not merely consultees.

**Ym mis Mehefin 2019,** cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n cynnal ei hymgynghoriad ei hun ar y gronfa, dan oruchwyliaeth grŵp llywio allanol, o ganlyniad i oedi gydag ymgynghoriad Llywodraeth y DU. Lansiwyd yr ymgynghoriad hwn **ym mis Tachwedd 2019**.

Ymgymerodd Pwyllgor Economi, Ynni a Gwaith Teg Senedd yr Alban **â gwaith** ar opsiynau posibl i ddisodli Cronfa Strwythurol a Buddsoddi'r UE yn 2018. Roedd yn argymell y **dylai'r swm presennol o arian a ddyrennir i'r Alban drwy gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd fod yn llinell sylfaen ar gyfer lefelau cyllido yn y dyfodol o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU**. Cytunodd hefyd â thystion a alwodd am rannu cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wrth ddatblygu fframwaith ar gyfer y gronfa, ac i'r Alban benderfynu ar ei dull ei hun o ddyrannu arian.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban ei adroddiad ar **gyllid ar ôl-Brexit ar gyfer blaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol yr UE yn yr Alban** ym mis Hydref 2019. Daeth gwaith y Pwyllgor i'r prif gasgliadau a ganlyn:

- Yn y tymor byr, ni ddylai'r Alban gael dim llai na'i dyraniad presennol gan nad yw gwahaniaethau rhanbarthol wedi lleihau, ac yn y tymor hwy dylid dyrannu cyllid drwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion.
- Ni ddylid cael dim gostyngiad ym mhwerau Llywodraeth yr Alban i wneud penderfyniadau o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU o gymharu hynny â'r sefyllfa bresennol o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE.
- Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn cefnogi cyllid aml-flwyddyn yn yr un modd ag y mae Cronfeydd Strwythurol yn gweithredu ar hyn o bryd i gefnogi cynlluniau strategol tymor hwy.





- Dylid cadw'r rhannau gorau o'r system bresennol ond mae cyfleoedd i symleiddio trefniadau gweinyddol.

**Ysgrifennodd** Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban hefyd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae ei flaenoriaethau yn cynnwys y dylai'r gronfa newydd gadw o leiaf yr un lefel o ddatganoli i'r Alban â'r hyn a geir ar hyn o bryd gyda chronfeydd yr UE; dylai'r lefelau cyllido fod o leiaf yr un swm â Chronfeydd Strwythurol yr UE; dylai ymrwymiadau cyllido ymestyn y tu hwnt i un tymor seneddol; a dylid sefydlu pot o gyllid er mwyn lleihau'r baich gweinyddol yn sylweddol.

